**Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy**
**Conwy County National Eisteddfod**
2–10 Awst / August 2019

Gŵyl gelfyddydol sy’n cael ei chynnal yn flynyddol yn y de a’r gogledd bob yn ail yw’r Eisteddfod Genedlaethol. Mae’n ddigwyddiad allweddol yn y calendr Cymreig a gellir ei disgrifio fel gŵyl dalent genedlaethol mewn cystadlaethau amrywiol o ddawnsio i lefaru, canu i fandiau pres, a’r cyfan yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhelir yr Eisteddfod yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, o ddydd Sadwrn i ddydd Sadwrn. Mae’r Eisteddfod yn denu, ar gyfartaledd, dros 150,000 o ymwelwyr gydol yr wythnos ac mae croeso i bawb – o’r Eisteddfodwyr selog i’r rhai sy’n ymweld am y tro cyntaf. Mae rheol uniaith Gymraeg yn yr Eisteddfod ac er bod yr holl gystadlu’n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg, mae croeso i’r rhai sydd ddim yn siarad yr iaith. Mae offer cyfieithu ar gael i’w casglu ger y Ganolfan Groeso wrth y brif fynedfa i’r Maes.

Y Pafiliwn mawr yw canolbwynt yr ŵyl – yno mae’r cystadlu’n digwydd – o gerddoriaeth a barddoniaeth i lefaru a dawnsio. Daw’r cystadlu i ben gan amlaf tua 4:30pm fel bod y prif seremonïau yn gallu cael eu cynnal ar y llwyfan – y Coroni ar ddydd Llun, Gwobr Goffa Daniel Owen ar ddydd Mawrth, y Fedal Ryddiaeth ar ddydd Mercher, a’r Cadeirio ar ddydd Gwener. Ar nos Fercher a nos Wener yr Eisteddfod mae’r cystadlu’n ail-gychwyn ar ôl y seremonïau ac yn parhau tan yr hwyr. Hefyd yn rhan o’r ŵyl, cynhelir cyngherddau nosweithiol, o’r Gymanfa Ganu i’r Noson Lawen, mae manylion llawn i’w cael ar wefan swyddogol a chynhwysfawr yr Eisteddfod eisteddfod.cymru/eisteddfod-2019 Os nad yw’r cystadlu yn mynd a’ch bryd, gallwch dreulio diwrnod ar faes yr Eisteddfod heb fynd i mewn i’r Pafiliwn gan bod cymaint o bebyll eraill i ymweld â nhw yn ogystal â stondinau ac arddangosfeydd. Mae nifer o stondinau bwyd o gwmpas y maes, a bariau yn gwerthu alcohol hefyd.

Lleolir yr Eisteddfod ar gaeau Plas Tirion a Chilcennus sydd ar ochr yr A470 rhwng Llanrwst a Betws y Coed ac mae edrych ymlaen mawr yn yr ardal. Gosodwyd nôd ariannol o £5000 ar gyfer ardal Dolwyddelan a da yw deall fod y targed hwn wedi’i hen gyrraedd diolch i gyfraniadau hael cymdeithasau, unigolion a chyn breswylwyr o’r pentref.